



o feibion Cunedda o'r Hen Ogledd a thad i Eternus,
nawddsant Edern, ac ef sefydlodd y cwmwd.

Roedd cant *tref* (sef fferm unigol), mewn cantref ac
roedd enwau fel Hendrefor a Llawr y Dref. Trigai'r
Cymro bonheddig yn ei dref ei hun yn un pen i'r stad,
sef pentref a rhoi inni'r enw Cefn Pentref, a Phentref ym
Motwnnog.

Roedd daliad o dir wedi'i etifeddu'n cael ei alw'n *gafael*
a rhoi i ni Gyfelan yn Llangwnnadr.

Er bod Cymru dan reolaeth coron Lloegr yn dilyn
goresgyniad Edward I parhaodd â'r drefn weinyddol
Gymreig am beth amser. Ond daeth Llŷn i gael ei

weinyddu fel rhan o Sir Gaernarfon a buan y daeth Nefyn
a Phwllheli) i fodolaeth.



Dilynwch y Stori...

Darganfyddwch fwy am orffennol diwydiannol
yr ardal trwy ymweld â Phorth y Swnt,
Aberdaron – Dysgwch fwy am dreftadaeth a datblygiad
yr ardal yng nghanolfan dehongli yr Ymddiriedolaeth
Genedlaethol.